Set Caneuon Stacey

Bwthyn Fy Nain



Trefniant Meurig Williams

1. Mae nain mewn bwthyn bach, yn ymyl llwyn o goed
Yn byw yn dedwydd iach, yn bedwar ugain oed
Cytgan: Mae perllan ganddi hi, a thyddyn bychan twt,
A'r ieir di-ri a'r fuwch a'r gath a'r ci
A'r mochyn yn y cwt.

2. A phan fo plant y llawr yn methu byw ynghyd
Mae nain yn dewydd iawn, yn dawel iawn ei byd
Cytgan: Mae perllan ganddi hi, a thyddyn bychan twt,
A'r ieir di-ri a'r fuwch a'r gath a'r ci
A'r mochyn yn y cwt.

Y Gaseg Felen



1. Ar y bryn mae caseg felen, Twdl ymdi rai di rai di ro
O na bawn i ar ei chefen, Twdl ymdi rai di rai di ro

2. O na chawn i bâr o adenydd, Twdl ymdi rai ...
Hedfan wnawn i pan fo'r awydd. Twdl ymdi ra ...

3. O na bawn i fel yr wylan, Twdl ymdi rai ...
Hedfan wnawn i'r môn fy hunan, Twdl ymdi rai ...

4. Fe fyddwn rhydd fel hydd i rhedeg, Twdl ymdi rai ...
Ond yn y shafftie mae y gaseg. Twdl ymdi rai ...

5. On waeth i mi heb â siarad, Twdl ymdi rai ...
Rhaid i mi aros hefo'r arad. Twdl ymdi rai ...

Mae'r Ddaear yn Glasu



Trefniant Meurig Williams

1. Mae'r ddaear yn glasu a'r coed sydd yn tyfu
A gwyrddion yw'r gerddi, mae'r llwyni mor llon;
A heirdd yw'r eginau, a'r dail ar y dolau,
A blodau'r perllannau pur llawnion.

2. Os bu yn ddiweddar wedd ddu ar y ddaear
Cydganodd yr adar yn gerddgar i gyd;
Gweld coedydd yn deilio a wnâi iddynt byncio,
Cydseinio drwy'n hoywfro draw'n hyfryd.

3. Mae'r ddaear fawr ffrwythlo a'i thrysor yn ddigon
I borthi'i thrigolion yn dirion bob dydd;
Pe byddem ni ddynion mewn cyflwr heddycholon
Yn caru'n un galon ein gilydd.